Gwerslyfrau Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYFRES GOLAU AR Y GAIR

Iesu'n dangos ei allu!

Deunydd Ysgol Sul
i rai rhwng 3 a 14 oed

Testun: Sarah Morris
Lluniau: Dawn Wilks

Cyhoeddwyd gan
Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYHOEDDIADAU'R GAIR

Cyfres Golau ar y Gair: Ilyfrau yn y gyfres

Porthi'r Pum Mil
Gideon - yn ymladd dros Dduw
Y Nadolig
Teulu Newydd Ruth
Moses - Y Dywysoges a'r Baban
Pasg – Iesu'r Brenin
Samuel – Duw yn siarad â Samuel
Pentecost – Newyddion Da Iawn
Daniel – yn ffau'r Llewod
Damhegion Iesu - Cyfrinachau'r Deyrnas
Dechrau'r byd: Hanes y Creu
Iesu'n dangos ei allu
Joseff yn yr Aifft
Y Nadolig: Rhodd Duw
Iesu: Ffrind mewn angen
Moses: Gadael yr Aifft
Y Pasg: trwy lygaid Pedr
Abraham: ffrind Duw
Ysbryd Duw ar waith: Dechrau'r Eglwys
Y Beibl: Stori Fawr Duw

Iesu'n gwneud gwahaniaeth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2008

Testun: Sarah Morris
Darluniau gan Dawn Wilks
Cynllun y clawr: Ynyr Roberts
Golygydd Cyffredinol / Cysodi: Aled Davies

ISBN 1 85994 xxx
Argraffwyd yng Nghymru gan Fineline, Rhuthun.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo y deunydd hwn mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwyr, heblaw lle rhoddir caniatâd i atgynhyrchu taflenni gwaith yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd yn yr ysgol Sul.

Cyhoeddwyd gan:
Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Rhoddir caniatâd a rhyddid i lungopïo deunyddiau gweledol a thudalennau gweithgaredd ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth yn unig. Gofynnwn fod pob person sy'n defnyddio y llyfr ar gyfer dysgu yn prynu ei gopi ei hun. Mae copïo a rhannu heb awdurdod yn waharddedig.

Cyflwyniad i'r gyfres

Pan sefydlwyd Cyngor Ysgolion Sul fel menter gydenwadol ddeugain mlynedd yn ôl, y nod o'r cychwyn cyntaf oedd darparu adnoddau a gwerslyfrau addas i blant, ieuenctid ac oedolion Cymru. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd cyfresi o werslyfrau, megis Cyfres y Gair, Gyda'n Gilydd, ac Ar y Ffordd. Bu i lawer o'r deunydd yma gael ei gyfieithu o'r Saesneg, gan edrych i gyfeiriad Eglwys yr Alban, Scripture Union, NCEC a TnT Ministries. Bu cyfieithu erioed yn ateb delfrydol nac yn hawdd, gan bod cyd-destun yr Ysgol Sul yng Nghymru mor wahanol. Wrth gyflwyno'r gyfres newydd hon i'ch sylw, rydym yn falch o ddweud bod hon yn gyfres gwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Mae gan Gyngor Ysgolion Sul banel gwerslyfrau cydenwadol, gydag aelodau profiadol ymysg gweinidogaethu i blant, ac mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y maes llafur a chynnwys y llyfrau. Mae'r gwersi yn cael eu paratoi gan Sarah Morris, a chanddi hithau hefyd flynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul a chlybiau plant yng nghylch Llansannan. Hyderwn felly y bydd y gyfres hon yn gymeradwy gan ein hysgolion Sul, ac yn fodd i arfogi athrawon wrth gyflwyno gwersi o Sul i Sul.

Yr hyn a geir yma yw gwerslyfr athro ar stori neu thema arbennig, a bydd llyfr newydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Un llyfr sydd ei angen gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. O fewn pob llyfr ceir:

Cynllun gwersi ar gyfer plant meithrin i 5 oed
Ceir yma amrywiaeth o syniadau o dan y penawdau Amser Chwarae, Amser Stori, Amser Creadigol ac Amser Canu a Gweddïo. Yn ychwanegol i hyn, ceir detholiad o daflenni gwaith i'w llungopïo.

Cynllun gwersi ar gyfer plant 6-11 oed
Ceir yma ddewis eang o weithgareddau arbennig i rai rhwng 6-8 oed a 8-11 oed. Nodir amcanion clir ar gyfer pob gwers, gyda ffyrdd gwahanol o gyflwyno a dysgu'r stori, syniadau crefft, cwis, gemau, drama, gweddïau a deunydd defosiwn. Ceir hefyd dewis o daflenni gwaith ar gyfer y ddau grŵp oed gwahanol.

Cynllun gwersi ar gyfer rhai rhwng 11-14 oed
Ceir yma dri thema yn deillio o'r stori, gydag amrywiaeth o syniadau creadigol a diddorol, a chyfle hefyd i drafod a sgwrsio.

Atodiadau a deunydd ychwanegol
Ceir nifer o atodiadau hefyd, yn cynnig syniadau ychwanegol a deunydd gweledol.
Rhestrir yn y llyfr hefyd rhai adnoddau ychwanegol e.e. llyfr stori ar y thema neu ddeunydd gweledol a chrefft. Cofiwch hefyd bod pob un o'r storïau hyn i'w cael ar ffurf fideo, fel rhan o'r gyfres Beibl Fideo.

Gwasanaeth Teuluol
Paratowyd gwasanaeth teuluol hefyd ar gyfer bob uned, a gobeithio bydd hyn o gymorth i ddod â bwrlwm yr ysgol Sul i mewn i fywyd yr eglwys, gan greu cymuned sy'n dysgu ac addoli gyda'i gilydd.

Cofiwch gysylltu os am gymorth neu gyngor gyda'r deunydd. *Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul*

Cyflwyniad i'r athro: Iesu'n dangos ei allu!

Beth yw eich atgofion o fod mewn storm? Dwi'n cofio'n iawn bod mewn storm tra ar wyliau yng ngwlad Belg flynyddoedd lawer yn ôl. Roeddwn yn aros mewn bwthyn ar ochr bryn yn wynebu'r dyffryn islaw. Mae'n rhaid bod y storm wedi para am sawl awr â fi a'n nhad yn sefyll wrth y ffenestr yn gwylio'r mellt yn goleuo'r holl ddyffryn. Dwi'n cofio'r teimladau o barchedig ofn profais wrth feddwl bod rhywbeth o nerth Duw yn cael ei ddatgan yn y storm frawychus honno. Teimlaf yr un parchedig ofn wrth ystyried sut y bu i Iesu dawelu'r storm ar Llyn Galilea. Y dyn oedd wedi mynd i gysgu ar glustog yn starn y cwch yn codi yn Dduw, gydag awdurdod dros bwerau'r byd naturiol.

Ceisiwn arwain y plant a'r pobl ifanc i'r man lle byddant yn rhyfeddu eu hunain at bŵer anhygoel yr Arglwydd Iesu, Mab Duw. Mae'r rhan fwyaf o wyrthiau Iesu yn dod â iachád ond mae ambell un, fel yr hanes y byddwn yn ei gysidro, yn dangos awdurdod Iesu dros fyd natur. Roedd y disgyblion i gyd yn y cwch, yn croesi'r llyn ar ôl diwrnod prysur a blinedig yng ngwmni Iesu, wrth iddo ddysgu'r tyrfaoedd. Er eu bod wedi clywed Iesu yn dysgu ac wedi bod yn dystion i lu o wyrthiau, roedd eu dealltwriaeth o bŵer Iesu yn gyfyngedig. Roeddent yn gwybod fod Iesu'n ddyn rhyfeddol iawn, ond doedden nhw ddim eto wedi'i gydnabod fel Duw, y Mab.

Yng ngoleuni hyn, byddwn yn ceisio annog y plant a'r bobl ifanc i ymddiried yn Iesu wrth wynebu 'stormydd bywyd'. Mae ganddo'r gallu i weithredu ym mhob sefyllfa er ein mwyn ac mae'n addo ei gwmni drwy beth bynnag a ddaw i'n rhan. Ceisiwn hefyd ddarganfod ystyr 'ffydd'.
Awn ychydig ymhellach gyda'r bobl ifanc wrth geisio ateb cwestiwn y disgyblion, "Pwy yw hwn?" Byddwn yn ystyried yr hyn sydd gan y Testament Newydd i'w ddweud am Iesu'r 'dyn' ac Iesu 'Mab Duw', gan geisio gweld pwysigrwydd ac angenrheidrwydd derbyn Iesu yn Dduw ac yn ddyn.

Clywais bregeth yn ddiweddar ar hanes Iesu'n tawelu'r storm. Doeddwn i ddim wedi sylwi o'r blaen fod y disgyblion yn dal yn ofnus ar ôl gweld Iesu yn dod â thawelwch a heddwch – tybed pam? Mae'r ateb i'w weld yn eu cwestiwn, "Pwy ynteu yw hwn?" Doedden nhw ddim yn gwybod yn iawn pwy oedd Iesu, felly cododd ofn a dryswch yn eu calonnau. Mae ofn a dryswch yn codi mor aml yn ein bywydau ni oherwydd nad ydym yn derbyn Iesu am bwy ydyw'. Mae'n ddyn, sy'n gallu cydymdeimlo â ni drwy stormydd bywyd; mae'n Dduw sy'n cynnig Ei nerth i ni fedru wynebu'r stormydd a dod drwyddyn nhw. Mae'n ddyn sydd wedi marw yn ein lle ar Galfaria, yn cymryd ein cosb a bodloni Duw cyfiawn; mae'n Dduw sy'n cynnig maddeuant a bywyd tragwyddol i bwy bynnag sy'n credu.

Rhestr Adnoddau

Llyfrau stori



Cwch Pedr
Pris £1.25
Dim Angen Cwch
Pris £1.25
Cawell o bysgod
Pris £2.50

Beiblau Lliw

Beibl Bach i Blant - Rhif 39

Beibl Lliw y Plant - tud. 220

Y Beibl Graffig

Cyfres y Beibl Fideo - dim tro yma... felly beth am ddangos y stori allan o Gŵr y Gwyrthiau!

Gŵr y Gwyrthiau – Cyfres Testament gan S4C

'Animated Stories from the Bible – Miracles of Jesus', Nest Entertainment ar gael o www.amazon.co.uk

Oed Meithrin – 5
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Amcanion:
- ❖ I ddeall fod gan Iesu bŵer dros y storm gan ei fod yn fab Duw
- ❖ I weld gofal Iesu dros ei ffrindiau
- ❖ I gyflwyno'r syniad ein bod yn medru ymddiried yn Iesu i ofalu amdanom

AMSER CHWARAE

1. Gemau gwrando a dilyn
Chwaraewch un o'r gemau canlynol i gyflwyno'r syniad o wrando ar /gwylio rhywun arall a bod yn ufudd.

'Mae Seimon yn dweud …'
'Pwy yw'r arweinydd?'
Mae pawb yn eistedd mewn cylch gyda un o'r plant yn sefyll tu allan i'r ystafell tra eich bod yn dewis 'arweinydd'. Mae'r arweinydd yn gwneud symudiadau gwahanol, e.e. clapio, tapio gwahanol rannau o'r corff ayyb, ac mae pawb arall yn ei g/chopïo. Mae'r person sydd wedi bod y tu allan yn gorfod ceisio dyfalu pwy yw'r arweinydd. Mae'r arweinydd a'r dyfalwr wedyn yn newid lle. Byddai'n syniad i chi ddangos sut mae'r arweinydd yn newid o un symudiad i un arall gyda phawb yn copïo cyn cychwyn y gêm yn iawn.

Esboniwch wrth y plant y byddwn yn clywed hanes am Iesu yn gwneud rhywbeth rhyfeddol iawn yn ein stori wir o'r Beibl heddiw. Neu, defnyddiwch y syniad yma i atgoffa'r plant am yr hanes.

2. 'Plîs Syr, gawn ni groesi'r môr?'
Mae'r plant yn sefyll ar un ochr yr ystafell, gydag arweinydd yng nghanol yr ystafell. Mae'r plant yn galw "Plîs syr, gawn ni groesi'r môr?" ac mae'r athrawes yn ateb, "Caiff pawb sy'n gwisgo rhywbeth glas/gyda gwallt brown/ gyda brawd mawr, groesi." Mae'r plant perthnasol yn 'croesi'r afon' – gan redeg i ochr arall yr ystafell - tra bod y lleill yn aros. Mae'r plant yn ailadrodd y cwestiwn, ac mae'r arweinydd yn ateb gydag amod gwahanol. Parhewch nes bod un plentyn ar ôl. Mae'r plentyn hwnnw yn ymuno â'r arweinydd yn y canol ac yn cael dewis yr amodau ar gyfer y gêm nesaf.
Esboniwch wrth y plant y byddwn yn clywed hanes am Iesu yn gwneud rhywbeth rhyfeddol iawn yn ein stori wir o'r Beibl heddiw. Neu, defnyddiwch y syniad yma i atgoffa'r plant am yr hanes.

3. Chwarae dŵr
Bydd angen powlen fawr o ddŵr arnoch, gwellt a darnau sgwâr o bapur i wneud cychod. Dangoswch i'r plant sut i greu cychod papur (Atodiad 1) a'u hwylio ar y dŵr. Gadewch i'r plant greu tonnau gyda'r gwellt a thrafodwch sut mae'r gwynt yn achosi 'storm'.

Esboniwch wrth y plant y byddwn yn clywed hanes am Iesu yn gwneud rhywbeth rhyfeddol iawn yn ein stori wir o'r Beibl heddiw. Neu, defnyddiwch y syniad yma i atgoffa'r plant am yr hanes.

4. Chwarae toes
Dangoswch i'r plant sut i ffurfio cwch gyda'r toes a gwnewch bobl bach i fynd ynddo. Gofynnwch i'r plant a fuont ar gwch erioed a thrafodwch eu profiadau.

Esboniwch wrth y plant y byddwn yn clywed hanes am Iesu yn gwneud rhywbeth rhyfeddol iawn un tro tra'r oedd mewn cwch. Neu, defnyddiwch y syniad yma i atgoffa'r plant am yr hanes.

Oed Meithrin – 5
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

AMSER STORI

Defnyddiwch lyfr stori Beiblaidd i gyflwyno'r stori - gweler y dudalen 'Adnoddau'. Cofiwch adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun wrth edrych ar y lluniau. Gallwch ddewis un o'r syniadau canlynol i atgyfnerthu'r hanes neu i gyflwyno'r stori, pe baech yn dymuno hynny.

1. Pawb i'r cwch
Bydd angen blanced i'w rhoi ar y llawr fel 'cwch'. Rhowch ambell gadair mewn siâp hirgrwn ac ymylon y flanced drostynt fel 'ochrau' i'r cwch. Mae pegiau dillad yn ddefnyddiol i ddal y flanced yn ei lle.

Eisteddwch yn y 'cwch' i adrodd yr hanes gan annog y plant i rwyfo, i edrych yn ofnus, i siglo yn ôl ac ymlaen gyda'r tonnau ac ati, wrth fynd ymlaen.

Gorffennwch gyda chwestiwn y disgyblion - "Sut oedd Iesu yn gallu stopio'r storm?" Roedd Iesu'n medru gwneud pethau rhyfeddol oherwydd ef yw mab Duw. Pwysleisiwch ofal Iesu dros ei ffrindiau a gofal Iesu drosom ninnau.

2. Beth sy'n digwydd?
Bydd angen y lluniau sydd yn 'Atodiad 2' wedi eu gludo ar focs – byddai bocs sgwâr Kleenex yn addas. Mae'r syniad yma yn addas ar gyfer atgyfnerthu/ailadrodd y stori.

Gadewch i'r plant gymryd eu tro i daflu'r bocs, fel byddant yn taflu dîs, ac i esbonio i bawb beth sydd i'w weld yn y llun. Os nad ydy'r plentyn yn ddigon hyderus gall y plant eraill gyfrannu atebion.

Os bydd y marc cwestiwn yn ymddangos, atgoffwch y plant o'r cwestiwn a ofynnodd y disgyblion, "Sut oedd Iesu'n gallu stopio'r storm?" Atgoffwch y plant fod Iesu'n gallu gwneud pethau rhyfeddol oherwydd ef yw mab Duw.

Pwysleisiwch ofal Iesu dros ei ffrindiau a gofal Iesu drosom ninnau.



Oed Meithrin – 5
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

AMSER CREADIGOL

1. Murlun

Bydd angen paent glas tywyll, glas golau a gwyn arnoch, gwellt, siâp cwch a siâp cwmwl i bob plentyn, creonau du, soseri, darn mawr o bapur, glud. Rhowch un lliw paent ar soser a'i gymysgu gydg ychydig o ddŵr fel bod y paent yn haws i'w drin.

Paratowch gefndir y murlun drwy osod blobiau o baent ar y papur i'r plant eu chwythu i bob cyfeiriad.

Gadewch i bob plentyn liwio siâp cwch a chwmwl yn ddu cyn eu gludo ar y cefndir.

Gosodwch deitl i'r murlun. Beth am Luc 8:25 - "Mae hyd yn oed y gwynt a'r môr yn ufudd i Iesu"? Atgoffwch y plant am yr hanes wrth i chi weithio.

2. Hosan wynt

Bydd angen copi o 'Atodiad 3' ar gyfer pob plentyn, creonau/pensiliau lliw, stribedi hir o bapur crêp, tâp selo neu lud, ac edafedd.

Lliwiwch yr adnod, gan roi cyfle i'r plant ailadrodd hanes Iesu'n tawelu'r storm. Gosodwch y stribedi o bapur crêp i hongian i lawr y tu ôl i'r llun. Gosodwch yr edafedd fel handlen cyn gludo dau ben yr adnod. Gadewch i'r plant redeg o gwmpas gyda'r 'hosan wynt' gan sylwi ar sut y mae'r stribedi yn chwythu yn y gwynt. Os yw'n gyfleus, a'r tywydd yn caniatáu, ewch allan i weld sut mae'r 'sanau'n chwythu. Atgoffwch y plant am y gwynt nerthol a achosodd storm ofnadwy yn yr hanes a sut y bu i Iesu ddweud wrth y gwynt i beidio â chwythu!

3. Melinau gwynt



Bydd angen melin wynt, gwelltyn a hen bensal ar gyfer pob plentyn, glud, "glitter," a 'blutac'. Gwnewch dwll yng nghanol pob melin wynt sy'n ddigon mawr i'r gwelltyn fynd drwyddo a symud yn rhwydd.

Gadewch i'r plant daenu glud ac yna 'glitter' ar ymylon y melinau gwynt. Plygwch y corneli i'r canol, fel y dangosir yn 'Atodiad 1' a'u gludo. Rhowch y melin wynt ar y gwelltyn a darn o '*blutac*' ar y pen i'w gadw'n sownd. Rhowch y gwelltyn ar y bensal i'w gryfhau. Wrth i'r plant chwythu'r melinau, atgoffwch nhw am yr hanes a sut y bu i Iesu dawelu'r gwynt a'r tonnau.

4. Taflenni gwaith

Oed Meithrin – 5
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

AMSER CANU A GWEDDÏO

Gweddi

Bydd angen darn mawr o bapur neu fwrdd gwyn a phinnau ffelt arnoch.
Trafodwch y pethau sy'n codi ofn ar y plant, a thynnwch luniau syml i gyd-fynd â nhw, e.e. pry copyn, cylch du = tywyllwch,
colli mam mewn siop = wyneb trist, a.y.y.b.

Atgoffwch y plant bod ffrindiau Iesu yn ofnus iawn yn ein stori - ydyn nhw'n cofio pam? Roedd Iesu'n medru helpu ei ffrindiau ac mae'n medru ein helpu ninnau hefyd. Mae Iesu gyda'i ffrindiau ymhob man.

Defnyddiwch y lluniau i arwain eich gweddïau dros y plant, e.e. 'Arglwydd Iesu, helpa Dafydd i beidio â bod ofn yn y nos pan mae'n dywyll ond i gofio dy fod yn edrych ar ei ôl. Amen'

Cân "Gyda Iesu yn y Storm."
(*Gweler 'Atodiad 10' am y dôn.)*

Gyda Iesu (*pwyntio i fyny)*
Yn y cwch
(gwneud siâp cwch gyda'r dwylo)
Medraf wenu
(*gwenu a phwyntio bys at y wên)*
Ar y storm
(*gwneud tonnau mawr gyda'r dwylo)*
Gwenu
(*gwenu a phwyntio bys at y wên)*
Ar y storm
Gwenu
(*gwenu a phwyntio bys at y wên*
Ar y storm
Gyda Iesu
(*pwyntio i fyny)*
Yn y cwch
(gwneud siâp cwch gyda'r dwylo)
Medraf wenu
(gwenu a phwyntio bys at y wên
Ar y storm
(*gwneud tonnau mawr gyda'r dwylo)*
Wrth inni hwylio ymlaen
(*gwneud symudiadau rhwyfo).*

Rhigwm
Mae'r arweinydd yn adrodd y cymal cyntaf, gyda'r plant yn ymateb, "Mae Iesu wrth law."
Cofiwch greu ystumiau i gyd-fynd hefyd!

Pan fyddaf yn hapus ….
Mae Iesu wrth law
Pan fyddaf yn drist ….
Mae Iesu wrth law
Pan fyddaf yn dda ….
Mae Iesu wrth law
Pan fyddaf yn flin ….
Mae Iesu wrth law
Pan fyddaf yn gynhyrfus …
Mae Iesu wrth law
Pan fyddaf yn ofnus ….
Mae Iesu wrth law
Pwy sydd wrth law?
IESU

AMSERLEN

Wythnos 1:
Amser Chwarae 1, Amser Stori 1,
Amser Creadigol 2, Gweddi

Wythnos 2:
Amser Chwarae 2 neu 3,
Amser Stori 2, Amser Creadigol 3,
Rhigwm

Wythnos 3:
Amser Chwarae 4, Cân,
Amser Creadigol 1,
Gêm o Amser Chwarae 1

Taflen 1
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Lliwiwch y llun o Iesu a'r disgyblion yn y storm.
Cewch ludo papur lliw glas ar y môr, cymylau duon a mellt melyn yn yr awyr.



Taflen 2
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Mae Iesu yn medru gwneud pethau rhyfeddol!
Ydych chi'n medru gwneud rhywbeth rhyfeddol hefyd?
Torrwch y darnau allan a'u gludo i greu llun o'r stori.



Taflen 3
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Edrycha ar y lluniau am 30 eiliad, wedyn, eu gorchuddio.
Faint wyt ti'n cofio?



Wyt ti'n cofio sut y mae coeden yn edrych? Tynna lun coeden.

Wyt ti'n cofio sut un yw dy dŷ di? Tynna'i lun yma.

Wyt ti'n cofio sut un ydy dy ffrind gorau? Tynna ei l/llun yma.

Dydy Duw byth yn



anghofio amdanom!

Oed 6 - 11
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41



Amcanion:

- ❖ I gyflwyno esiampl o rym ac awdurdod Iesu, Mab Duw
- ❖ I ystyried ystyr 'ffydd'
- ❖ I weld gofal Iesu dros ei ffrindiau a sut gallwn ni droi at Iesu am gymorth.

Adnod i'r gyfres:
"Pwy yw hwn? Y mae hyd yn oed y gwynt a'r môr yn ufuddhau iddo." Marc 4:31

Cân i'r gyfres:
"Gyda Iesu yn y cwch…" Gweler 'Atodiad 10'.

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

1. Am wyneb!
Copïwch y wynebau isod ar ddarnau unigol o bapur a'u dangos i'r plant, un ar y tro, gyda'r wyneb ofnus yn olaf. Gweler hefyd 'Atodiad 4'. Gofynnwch iddynt gopïo'r ystum a'r hyn y mae'r wyneb yn cyfleu iddynt. Trafodwch sefyllfaoedd pan oedd y plant yn teimlo'r emosiwn sydd o dan sylw. Byddwch yn barod i gynnig syniadau eich hun yn sbardun iddynt. Ar ôl trafod eu hatgofion o fod yn ofnus, cewch gyflwyno hanes ffrindiau Iesu, y disgyblion, yn cael profiad ofnus iawn a'r hyn wnaeth Iesu yn y sefyllfa honno.



Oed 6 - 11
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

2. Gêm – 'Pwy sy'n perthyn?'
Rhannwch y plant yn dimoedd. Bydd angen copi o 'Atodiad 5' arnoch ar gyfer pob tîm, bob llun wedi'i dorri allan a'i dorri'n hanner. Byddai'n haws cadw trefn ar y lluniau petaech yn gwneud copi ar bapur lliw gwahanol ar gyfer bob tîm!

Nod y gêm yw casglu pob darn, eu gosod at ei gilydd ac yna cysylltu'r lluniau sy'n perthyn. Gallwch gynnal ras gyfnewid rhwng y timoedd, neu cynnal cwis, gyda'r timoedd yn ennill darnau am atebion cywir.

Ar ôl i bawb gael cyfle i drefnu'r lluniau trafodwch beth sy'n eu cysylltu (*gan obeithio bydd y plant yn gweld bod plentyn a dyn yn gysylltiedig yn 1. Maent yn edrych yn debyg yn 2. Maent yn hoffi'r un peth yn 3. Maent yn cyflawni'r un "gwaith.")* Awgrymwch fod y plentyn a'r dyn yn fab a thad a thrafodwch gyda'r plant sut maen nhw'n debyg i'w tadau yn yr un modd. Byddwch yn sensitif i amgylchiadau gwahanol y plant - efallai byddai'n well trafod y tebygrwydd sydd rhyngddynt ac aelodau eraill o'r teulu hefyd ac nid gyda'u tadau yn unig.

Esboniwch y byddwn yn clywed hanes gwir o'r Beibl heddiw sy'n dangos nerth rhyfeddol Iesu - yr un nerth â sydd gan Dduw, tad Iesu.



3. 'Lluniau stormus'
Dangoswch luniau o stormydd i'r plant. Gweler rhai ar safle'r BBC drwy chwilio am luniau o 'stormydd'. Trafodwch eu profiadau o fod mewn storm, beth a welwyd/glywyd a pha deimladau oedd ganddyn nhw. Rhowch bapur a phethau lliwio i'r plant a gofynnwch iddyn nhw dynnu llun sy'n cyfleu eu syniadau am "storm." Ar ôl 5 munud, edrychwch ar y lluniau a'u trafod. Anogwch y plant i siarad am eu teimladau o ofn ac ansicrwydd.

Esboniwch y byddwn yn clywed hanes gwir o'r Beibl heddiw pan oedd ffrindiau Iesu yn ofnus iawn mewn storm a beth wnaeth Iesu.

4. 'Dec y llong'
Mae'r plant yn sefyll mewn rhes, un tu ôl i'r llall, yng nghanol yr ystafell - dyma'r 'dec canol'. Mae'r wal i'r chwith yn cael ei alw'n 'dec uchaf', a'r wal i'r dde yn 'dec isaf'. Mae angen un person i fod yn 'gapten'. Mae'r capten yn sefyll o flaen y 'morwyr' ac yn galw cyfarwyddiadau. Pan fo'r capten yn galw 'dec uchaf' mae'r morwyr yn rhedeg at y dec uchaf ayyb. Yr olaf i gyrraedd sydd allan o'r gêm, nes bydd y capten yn galw 'mae'r capten yn dod' pan fo'n rhaid i bawb redeg yn ôl i'r dec canol a saliwtio'r capten, sydd yn cerdded ar hyd y rhes yn cynnal 'archwiliad' o'i griw. Gallwch ychwanegu cyfarwyddiadau eraill, fel 'dringo'r rhaffau', 'sgwrio'r dec', 'storm' neu beth bynnag mae'r plant yn awgrymu.

Ar ôl chwarae am ychydig holwch i'r plant am eu profiadau o fod ar long neu gwch. Esboniwch fod Iesu a'i ffrindiau, y disgyblion, wedi cael sawl taith ar gwch ac y byddwn yn clywed am un o'r teithiau yn ein stori wir o'r Beibl heddiw.

Oed 6 - 11
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

1. Am wyneb!
Defnyddiwch y lluniau o Adran Cyflwyno'r Thema 1 – 'Atodiad 4'. Darllenwch y stori o'r Beibl (Marc 4:35-41) gan oedi yn y mannau perthnasol i ofyn i'r plant ddewis yr ystum mwyaf addas. Gallant geisio creu'r un ystum eu hunain cyn ichi barhau i ddarllen.
e.e. adnod 35 – 'wedi blino ar ôl diwrnod gyda'r tyrfaoedd'
Adnod 36 – 'canolbwyntio ar hwylio'r cwch i'r llyn'
Adnod 37 – 'ofn wrth i'r storm ffyrnig godi'
Adnod 38 – 'poen meddwl wrth ddeffro Iesu'
Adnod 39 – 'syndod wrth i Iesu siarad gyda'r gwynt a'r tonnau'
Adnod 41 – 'dryswch, wrth feddwl am yr hyn maen nhw newydd ei weld'

Cymhwyso
Bydd angen tri marc cwestiwn arnoch.
Gofynnwch i'r plant sut oedd Iesu'n medru tawelu'r storm? *Dangoswch y marc cwestiwn cyntaf.*

Esboniwch mai mab Duw yw Iesu a bod ganddo'r un pŵer a nerth â Duw. Y gair byddwn yn ei ddefnyddio am y pethau rhyfeddol a wnaeth Iesu yw 'gwyrth'. Ydy'r plant yn gallu meddwl am bethau mae Duw neu Iesu wedi gwneud sy'n dangos pa mor nerthol yw Ef? Mae Iesu'n gallu ein helpu heddiw, oherwydd ef yw Mab Duw ac mae ganddo nerth a phŵer rhyfeddol.

Gofynnodd Iesu gwestiwn i'w ddisgyblion. *Dangoswch yr ail farc cwestiwn.*
"Ble mae eich ffydd?" Roedd y disgyblion wedi bod gyda Iesu ac wedi gweld llawer o wyrthiau. Hefyd, roeddent wedi ei glywed yn siarad am Dduw. Ond eto, doedden nhw ddim wedi deall mai Iesu oedd mab Duw. Dyna pam yr oedden nhw'n ofnus ar ôl i'r storm ballu. Rydyn ni wedi clywed llawer am Iesu yn yr Ysgol Sul ond a ydyn ni'n credu ynddo? Ydyn ni wedi gofyn iddo faddau ein pechodau a dod i'n calon i fyw? Dyna yw ffydd - credu pwy yw Iesu a'r hyn y mae'n gallu ei wneud. Oes gennym ni ffydd?

Gofynnwch i'r plant a fydde nhw wedi bod yn ofnus yng nghanol y storm fel y disgyblion? *Dangoswch y trydydd marc cwestiwn.*
Edrychwch eto ar yr wynebau a gofynnwch i'r plant i feddwl am sefyllfaoedd pan fyddant yn profi'r teimladau hyn. Efallai y byddwch wedi gwneud hyn yn barod wrth gyflwyno'r thema ond gyda grŵp o blant hŷn, mae'n gyfle i chi drafod sefyllfaoedd mwy manwl, e.e. salwch rhywun annwyl, trafferth gyda ffrindiau, pethau sy'n ein drysu neu'n ein poeni.

Esboniwch wrth y plant fod Iesu'n medru ein helpu ymhob sefyllfa, sut bynnag byddwn yn teimlo. Gallwn siarad gydag ef am bopeth sy'n mynd ymlaen yn ein bywyd ac mae'n deall y cwbl. Dydy Iesu ddim bob amser yn stopio'r pethau anodd ond mae'n gallu ein helpu i ymdopi a wynebu'r broblem.

I grynhoi:
Cwestiwn 1 - Sut oedd Iesu'n medru tawelu'r storm?
Cwestiwn 2 - Beth yw ffydd?
Cwestiwn 3 - Beth ddylwn ni ei wneud os ydyn ni'n gwynebu 'stormydd', sefyllfaoedd anodd?

Byddai'n syniad i weddïo gyda'r plant nawr gan ddefnyddio'r wynebau unwaith eto. Os ydych chi'n teimlo ei bod hi'n briodol, gofynnwch os oes rhywun eisiau gweddïo dros broblem/ sefyllfa benodol. Neu, gweddïwch dros y plant gan ofyn i Iesu am ei help ymhob sefyllfa a enwyd, e.e. Arglwydd Iesu, wnei di ein helpu pan fyddwn yn ofnus/ siomedig/ dryslyd, a.y.y.b. Defnyddiwch unrhyw enghraifft benodol mae'r plant wedi ei hawgrymu.

Oed 6 - 11
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

2. Stori gyda chamgymeriadau
Darllenwch y stori unwaith eto gyda chamgymeriadau. Gofynnwch i'r plant i wrando'n astud ac i'ch cywiro pan fyddant yn clywed camgymeriad. Gallant droi eu bodiau i lawr pan fyddant yn meddwl eu bod wedi clywed camgymeriad.

'Un bore, aeth Iesu ar ei ben ei hun at y llyn a chamu mewn i ganu.

Roedd Iesu newydd ddeffro ac yn llawn egni.

Doedd neb arall o gwmpas.

Daeth i fwrw eira.

Roedd Iesu yn gorfod padlo'n galed i ochr y llyn.

Roedd y disgyblion yn aros ar y lan amdano.

Gofynnodd Iesu iddynt "beth sydd i frecwast?"

3. "Mae'n têc!"
Gofynnwch i'r plant os ydyn nhw wedi gweld rhaglen deledu sy'n dangos camgymeriadau o raglenni gwahanol. Esboniwch fod yr actorion yn gorfod ail wneud pob golygfa nes ei bod yn berffaith. Pa wahanol olygfeydd sydd yn ein stori heddiw? Gadewch i'r plant gynnig awgrymiadau a hefyd i ffurfio'r golygfeydd. Darllenwch y stori eto, o'r Beibl i Blant Bach os dymunwch, gan aros yn y mannau priodol i'r plant ffurfio'r olygfa. Cofiwch hefyd geisio dangos teimladau'r cymeriadau. Byddai'n dda o beth tynnu llun o bob 'golygfa' gyda chamera.



Oed 6 - 11
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

SYNIADAU CREFFT

1. Hosan wynt

Bydd angen copi o 'Atodiad 3' arnoch ar gyfer pob plentyn, creonau/pensiliau lliw, stribedi hir o bapur crêp, edafedd a thâp selo neu lud.

Lliwiwch yr adnod, gan roi cyfle i'r plant ail-adrodd hanes Iesu'n tawelu'r storm. Gosodwch y stribedi o bapur crêp i hongian i lawr o gefn y llun. Gosodwch yr edafedd fel handlen cyn gludo dau ben yr adnod. Gadewch i'r plant redeg o gwmpas gyda'r 'hosan wynt' gan sylwi ar sut mae'r stribedi yn chwythu yn y gwynt. Os yw'n gyfleus, a'r tywydd yn caniatáu, ewch allan i weld sut mae'r sanau'n chwythu. Atgoffwch y plant am y gwynt nerthol a achosodd storm ofnadwy yn yr hanes a'r effaith gafodd geiriau Iesu.

2. Llun

Bydd angen tudalen o gerdyn arnoch, siâp cwch (sydd â dau agen), a darn o bapur glas siâp ton i bob plentyn.
Rhowch ddarn o gerdyn i bob plentyn i greu llun cefndirol.
Gadewch i'r plant gopïo'r adnod ar y don cyn gosod y cwch arno a'i styffylu i'r cefndir. Mae'r cwch yn 'hwylio' ar draws y llun gyda geiriau'r adnod yn dod i'r amlwg.

3. Clychau gwynt



Mae yna sawl ffordd o greu clychau gwynt.

Gan ddefnyddio caeadau ffoil o boteli llaeth neu flychau eraill;

Hen gryno ddisgiau, gyda'r adnod wedi'i hysgrifennu arnynt;
Siapiau toes - bydd angen pobi'r siapiau cyn eu peintio felly bydd angen i chi orffen y gwaith crefft dros ddau ddydd Sul.

Rhowch yr eitemau o'ch dewis chi ar ddarnau o linyn o wahanol hyd a'u clymu ar ddarn o gerdyn trwchus sydd hefyd wedi ei addurno (gyda'r adnod?) ac sydd â darn o edafedd/cortyn i'w hongian.

Oed 6 - 11
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

GWEITHGAREDD YCHWANEGOL

Dysgu adnod
Ffurf chwarae newid cadeiriau. Bydd angen chwaraewr CDd a'r adnod yn 'Atodiad 6' arnoch.

Dangoswch yr adnod i'r plant, a'i ddarllen sawl gwaith. Rhowch gadeiriau mewn llinell neu o gwmpas yr ystafell fel bod cadair i bob plentyn ond un (gallwch ddefnyddio darnau o bapur newydd/cerdyn yn lle cadeiriau). Mae'r plant yn symud o gwmpas yr ystafell tra bod y gerddoriaeth yn chwarae. Wrth i'r gerddoriaeth dewi, maen nhw'n chwilio am gadair i eistedd arni/papur i sefyll arno. Bydd un plentyn heb gadair/papur. Mae'r plentyn hwnnw yn ceisio adrodd yr adnod yn ei chyfanrwydd. Os yw'n methu, caiff ofyn i blentyn arall am gymorth. Ar ôl adrodd yr adnod, mae'r gerddoriaeth yn ail gychwyn ac mae un gadair/darn o bapur yn cael ei th/dynnu ymaith. Felly, y tro nesaf, bydd dau blentyn heb gadair/papur ac yn adrodd yr adnod gyda'i gilydd. Eto, cânt ofyn am gymorth os bydd angen. Erbyn diwedd y gêm dylai pawb fedru adrodd yr adnod gyda'i gilydd.

Cwis
Paratowch restr o gwestiynau o'r stori a rhai hanesion diweddar sydd ag ateb 'gwir' neu 'gau'. Bydd angen baner goch ar bob tîm a baner werdd ar bob tîm - gludwch driongl o bapur gwyrdd/coch ar bensil i greu baneri syml. Rhowch y baneri gwyrdd/coch yng nghanol yr ystafell a rhannwch y plant yn dimoedd. Gofynnwch gwestiwn i'r timoedd. Os ydyn nhw'n meddwl bod yr ateb yn 'wir', mae un person o'r tîm yn rhedeg at y baneri ac yn codi baner werdd; os ydyn nhw'n credu bod yr ateb yn anghywir ('gau') maen nhw'n codi baner goch. Cadwch sgôr a rhowch wobr i'r tîm buddugol.

Gemau
Dec y llong (*Gweler Adran Cyflwyno'r Thema)*

Cysgu yn y cwch
Mae'r plant yn eistedd mewn cylch ar y llawr ar ffurf 'cwch', gydag un person yn 'cysgu' yn y canol, h.y. eistedd â sgarff dros ei l/llygaid. O flaen y person hwnnw, gosodwch set o oriadau. Mae un person o'ch dewis chi yn ceisio dwyn y 'goriadau' o'r canol heb i'r person sy'n 'cysgu' ei g/chlywed. Os bydd y cysgwr yn clywed sŵn mae'n codi bys i bwyntio at gyfeiriad y sŵn. Os yw'n gywir, mae person arall yn ceisio dwyn y 'goriadau'. Os yw'r person yn llwyddo i ddwyn y 'goriadau', mae'n newid lle gyda'r cysgwr. Cadwch sgôr o faint o bobl y mae pob person yn eu dal cyn colli'r 'goriadau', rhowch wobr fechan i'r person sydd wedi dal y nifer mwyaf.

Taflenni gwaith

Oed 6 - 11
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

DRAMA

1. Darlleniad dramatig

2. Chwarae rôl
Trafodwch '*Superheroes*' gyda'r plant. Pa gryfderau/ ddoniau arbennig sydd ganddyn nhw? e.e. *Spiderman, Superman, The Incredible Hulk, Batman*. Dangoswch ran o ffilm addas os oes gennych fodd o wneud hynny, sy'n dangos un o'r '*Superheroes*' ar waith.
Trafodwch y sefyllfaoedd canlynol a sut byddai Iesu'n medru helpu.
Os oes grŵp mawr gennych, rhannwch y plant i grŵpiau llai a rhowch un o'r sefyllfaoedd canlynol iddyn nhw. Gofynnwch iddyn nhw greu sgwrs a meim. Atgoffwch y plant i ystyried teimladau'r cymeriadau ac i ddangos y teimladau wrth actio.
1. Mae 'na storm tu allan. Mae'n bwrw glaw yn drwm iawn, gyda mellt a tharanau. Mae dy chwaer/frawd bach yn ofnus iawn. Beth wnei di?
2. Mae plentyn newydd wedi symud i'r stryd ac mae ef/ hi'n pigo arnat ti a dy ffrindiau ar y ffordd i'r ysgol bob bore. Beth wnei di a dy ffrindiau?
3. Mae dy dad wedi cael swydd newydd ac mae'n rhaid i chi symud tŷ a chychwyn mewn ysgol arall. Beth wnei di?
4. Mae dy rieni yn mynd allan i'r sinema ac mae'n rhaid i ti aros dros nos gyda nain/modryb, ond rwyt ti'n ofni cysgu ar dy ben dy hun. Beth wnei di?

Gwnewch amser i bawb wylio 'perfformiadau' ei gilydd neu defnyddiwch '*camcorder*' i'w recordio.

AMSERLEN

Wythnos 1:
Cyflwyno'r thema 1; Cyflwyno'r Stori 1/2/3; Gweddi; Gêm

Wythnos 2:
Cyflwyno'r thema 2; Crefft; Cân

Wythnos 3:
Cyflwyno'r Stori 4; Drama; Gweddi; Gêm

GWEDDÏAU

1. Trowch eich wyneb at Iesu

Defnyddiwch yr wynebau yn 'Atodiad 4'. Edrychwch ar bob wyneb a thrafodwch sefyllfaoedd pan fyddwch yn teimlo fel hyn. Atgoffwch y plant bod Iesu'n gallu ein helpu mewn unrhyw sefyllfa oherwydd Ef yw mab Duw. Os ydych chi'n teimlo ei bod hi'n briodol, gofynnwch os oes rhywun eisiau gweddïo dros broblem/ sefyllfa benodol. Neu, gweddïwch dros y plant gan ofyn i Iesu am ei help ymhob sefyllfa a enwyd, e.e. 'Arglwydd Iesu, wnei di ein helpu pan fyddwn ni'n ofnus/ siomedig/ dryslyd, ayyb. Defnyddiwch unrhyw enghraifft benodol y mae'r plant wedi'u hawgrymu.

2. Gweddïau arnofio

Bydd angen powlen o ddŵr a sgwariau o bapur arnoch.

Rhowch sgwâr o bapur i bawb a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu gweddi sy'n gofyn i Dduw am gymorth mewn sefyllfa benodol. Atgoffwch y plant fod Iesu'n caru ei bobl ac yn barod i'w helpu bob amser. Gallwn weddïo dros ein hunain a thros bobl eraill sydd mewn angen hefyd. Plygwch y papur i siâp cwch a'i osod ar y dŵr (gweler 'Atodiad 1'). Wrth wylio'r cychod gweddïwch dros y plant, "Arglwydd Iesu, diolch dy fod yn gwrando ar ein gweddïau. Helpa ni i gael ffydd ynot ti ac i gredu dy fod yn fab Duw."

Taflen 4
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41



ANFERTH
CWCH
FFRINDIAU
GWYNT
IESU
LLYN
MOR
STORM
TAWELU
TONNAU

U	R	O	M	U	M	I	T	U	X
L	V	R	Q	V	A	Y	E	F	R
E	G	W	Y	N	T	N	F	S	V
W	B	A	I	I	C	R	N	M	U
A	L	L	W	W	I	I	R	O	X
T	L	X	C	N	V	O	S	M	T
O	Y	H	D	Y	T	H	C	U	I
V	N	I	M	S	U	X	U	B	E
B	A	H	T	R	E	F	N	A	V
U	P	X	B	I	S	R	H	G	L

Taflen 5
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Roedd gan y disgyblion ffrind arbennig i'w cadw'n ddiogel.
Tynnwch luniau o'r bobl sy'n eich cadw'n ddiogel bob dydd.

Mae pob llythyren **a, o, u, y** ar goll o'r adnod.
Llenwch y bylchau i ddarganfod beth feddyliodd y disbyblion ar ôl i Iesu dawelu'r storm.

Pw _ _w hwn? M _ e h_d _n
_ e d _ gw_nt _'r m_ r
_ n _ f _ ddh _ _ idd_. M_rc 4:31

Taflen 7
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41



Gorffennwch pob anagram i greu geiriau.
Cymerwch y llythrennau sydd yn y bocs ◯ a'u gosod mewn trefn i roi teitl y stori i chi.

SON
CCHW
TMELYTS
WGLA
NGTYW
TUNONA
NEILLW
CGSYU
DURDYEC
DITSAW
DYDFF
NOF
DUFHUADU

Ydych chi'n nabod rhywun sydd angen cymorth Iesu ar hyn o bryd? Ysgrifennwch weddi drostynt.

Taflen 8
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Rhowch y teils isod mewn trefn i greu rhan o adnod olaf, Pennod 4 o lyfr Marc.

Y N	D Y	Y N T	Y M	Y N	O	O E	U F U
A U	A E	I D D	R M	O R	G W	D D H	H Y D
A '							

Tynnwch lun o'r stori am Iesu'n tawelu'r storm.

Mae'r rhifau yn cynrychioli llythyren.
Defnyddiwch rhain i roi brawddeg bwysig o hanes y storm fawr i ni.

A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V	W	X	Y	Z
				4										1					17					2	

	O		O				T	Y		E		T								O		Y		T	.
20	1	18	1	18	18		17	2	10	4	8	17	16		24	25	14	15		1		14	2	9	17	
		Y		O	E				Y		T	O							'		Y					
25	20	2	15	1	4	18	18		2		17	1	9	9	25	7		9		2	10	18	25	24	16	7
	'							E		E		O		E		Y		Y							
3		15		20	14	20	11	9	4	8		4	3	24	1	18		4	15	19	2	9		11	2	9
								Y				E														
								2	9			16	16	4	9	14	3									

Angen mwy o help? A=25: D=18: F=24:

Taflen 9
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Darganfyddwch bob gair isod ac yna bydd y 63 llythyren cyntaf sydd ar ôl yn rhoi adnod i chi.

A	C	F	E	D	U	G	D	E	F	F	R	T	D	O
D	D	A	C	H	A	O	E	R	Y	D	O	N	D	D
U	R	G	W	Y	H	S	O	F	N	N	N	Y	Y	T
C	W	C	H	A	D	T	D	W	N	E	U	W	F	D
W	R	T	H	Y	D	E	M	A	O	R	B	G	F	Y
D	D	D	D	T	U	G	U	I	S	T	A	W	B	Y
O	D	D	D	A	F	U	A	W	E	L	U	O	R	V
R	G	Y	Y	W	U	M	U	Y	C	R	D	A	G	O
H	T	U	B	E	T	W	R	S	T	K	D	T	Q	J
T	K	G	V	L	Z	Y	A	O	C	C	Y	S	G	U
A	H	T	S	W	O	P	M	X	T	K	R	I	C	L
W	Q	G	A	C	F	U	K	E	U	S	E	O	Z	L
Z	D	B	F	H	I	O	S	Q	S	Y	C	H	E	P
J	L	R	P	Z	T	M	E	N	W	T	E	Z	V	Z
Y	Q	C	J	K	R	R	Ô	M	C	O	L	O	J	T

Athro	**Môr**	**Gwynt**	**Ceryddu**	**Ofn**
Ufuddhau	**Cwch**	**Storm**	**Gostegu**	**Cysgu**
Tawelwch	**Tymestl**	**Ffydd**	**Tonnau**	

_ _ / _ _ / _ _ _ _ _ _ _ _ _ / _ / _ _ _ _ _ _ _ _ ' _ / _ _ _ _ _ / _

_ _ _ _ _ / _ _ _ _ / _ / _ _ _ / " _ _ _ _ , _ _ _ _ _ _ _ ! / _ _ _ _ / _ _ _ _ _ !"

Oed 11 - 14
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Amcanion:

- ❖ I ddarganfod ystyr 'ffydd'
- ❖ I weld sut mae Iesu'n cynnal ei bobl drwy 'stormydd' bywyd
- ❖ I ystyried dysgeidiaeth y Beibl ar natur Iesu, yn ddyn ac yn Dduw

Wythnos 1:
'Ble mae eich ffydd?'

Yr wythnos hon byddwn yn

- ❖ dod yn gyfarwydd â hanes Iesu'n tawelu'r storm - Marc 4:35-41
- ❖ trafod ystyr 'ffydd'

Cyflwyno'r thema

Cwis 'Chwilio am ……'

Bydd angen copi o 'Atodiad 7' arnoch ar gyfer pob pâr/tîm a'r cwestiynau isod.

Nod y gêm yw dod o hyd i atebion y cwestiynau isod yn y chwilair. Rhowch bwyntiau i'r tîm cyntaf a ddaw o hyd i'r ateb cywir. Ar ddiwedd y cwis, trafodwch beth sy'n cysylltu'r cymeriadau. Bydd mwy nag un ateb cywir, ond dylid pwysleisio'r ateb eu bod nhw i gyd wedi ymddiried yn Nuw mewn amgylchiadau anodd. Esboniwch y byddwn yn clywed hanes heddiw am Iesu a'i ffrindiau mewn sefyllfa beryglus a chawn weld bod ffydd y disgyblion ychydig yn brin!!

1. Cafodd y dyn hwn addewidion am fab, cenedl a gwlad gan Dduw.
Abraham

2. Cuddiwyd y babi hwn mewn basged ar yr afon Nil.
Moses

3. Doedd gan y dyn hwn ddim ofn llewod!
Daniel

4. Un o ffrindiau Daniel, Sadrach a Mesach.
Abednego

5. Roedd y dyn hwn yn dipyn o saer coed, ac yn forwr!
Noa

6. Byddin fach ond effeithiol oedd gan y barnwr yma.
Gideon

7. Y disgybl a wadodd Iesu.
Pedr

8. Wedi meddwi yn y tabernacl neu'n gweddïo oedd y ddynes hon?
Hanna

9. Cafodd y ddynes hon hyd i ŵr yn y caeau wrth loffa.
Ruth

10. Cafodd y dyn hwn neges gan angel i briodi mam Iesu.
Joseff

11. Dyn byr a gafodd de gyda Iesu.
Sacheus

12. Cafodd y ddynes hon daith ar gefn asyn i Fethlehem.
Mair

13. Ffrind arall i Daniel, Mesach ac Abednego.
Sadrach

Oed 11 - 14
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

14. Gweithiodd y bachgen hwn yn y tabernacl gydag Eli.

Samuel

Siarad cyhoeddus
Rhannwch stori gyda'r grŵp am achlysur pryd y cawsoch ofn. Gofynnwch iddynt feddwl am un peth sy'n codi ofn arnynt ac yna gofynnwch am wirfoddolwyr i siarad amdano am funud, heb oedi nac ail-adrodd. Amserwch bob ymgeisydd a rhowch wobr fechan i'r unigolyn/unigolion sy'n llwyddo. Heddiw, cawn glywed hanes am y disgyblion yn cael llond bol o ofn!!

Darllen a deall y Beibl

Bydd angen Beiblau arnoch, darn mawr o bapur/ bwrdd gwyn gyda'r geiriau, "Pam ymddiried yn Iesu?" arno.

Cyn adrodd yr hanes, gofynnwch i'r grŵp i feddwl: mewn beth neu ym mhwy y mae ganddyn nhw ffydd? Gair arall am 'ffydd' yw ymddiried neu *'trystio'*. Rhowch esiampl eich hun i ddechrau, e .e. 'Mae gen i ffydd y bydd golau yn dod ymlaen bob tro y byddaf yn pwyso swîts golau ymlaen adref,' neu 'Mae gen i ffydd y bydd fy nghar yn cychwyn pan fyddaf yn troi'r goriad yn yr '*ignition*', neu 'Mae gen i ffydd y bydd fy ngŵr yn prynu anrheg i mi ar fy mhen-blwydd'. Rydyn ni i gyd yn defnyddio 'ffydd' bob dydd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Heddiw, byddwn yn trafod yr hyn y mae'n ei olygu i gael 'ffydd' yn Iesu.

Darllenwch yr hanes yn Marc 4:35-41 a gofynnwch y cwestiynau canlynol:

1. Pam oedd y disgyblion mor ofnus?
Adnod 37

2. Beth oedd eu cwestiwn i Iesu?
Adnod 38

3. Beth oedd ymateb Iesu?
Adnod 39

4. Pa gwestiwn oedd gan Iesu i'w ddisgyblion?
Adnod 40

5. Sut oedd Iesu yn gwybod nad oedd gan y disgyblion ffydd?
Adnod 40 –eu hofn

6. Pam fod y disgyblion dal yn ofnus?
Adnod 41 - doedden nhw ddim yn deall beth oedd wedi digwydd.

Pwy fyddech chi'n ymddiried ynddo/i?
I'ch helpu gyda'ch gwaith cartref?
I dorri eich gwallt?
I roi pigiad i chi?

Gwnewch y pwyntiau canlynol:
1. rydym yn ymddiried mewn pobl rydym yn eu hadnabod,

2. pobl sydd wedi profi eu bod yn haeddu ein hymddiriedaeth,

3. os ydym yn ymddiried yn rhywun, rydym yn dangos ein hymddiriedaeth drwy'r hyn a wnawn.

Dangoswch y cwestiwn canlynol i'r grŵp, "Pam ymddiried yn Iesu?"

Yn gyntaf, gofynnwch i'r grŵp pam y credant y dylai'r disgyblion fod wedi ymddiried yn Iesu.

Oed 11 - 14
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

1. Roeddent wedi treulio amser gyda Iesu ac wedi ei glywed yn esbonio ei fod wedi dod i'r byd i ddod a phobl yn ôl at Dduw, ei dad. *Tynnwch lun pâr o glustiau.*

2. Roeddent wedi gweld llawer o wyrthiau eraill - gwyrthiau roedd Iesu'n cyflawni i brofi mai ef oedd mab Duw. *Tynnwch lun pâr o lygaid.*

Ond roedd eu hofn yn y storm yn dangos nad oeddent, mewn gwirionedd, wedi credu eto yr hyn oedd Iesu wedi bod yn dweud amdano'i hun.

Yn ail, gofynnwch i'r grŵp, 'Pam y dylem ymddiried yn Iesu?'
Mae'r atebion yn debyg i'r rhai uchod. Rydym yn 'clywed' Iesu ac yn ei 'weld' wrth i ni ddarllen y Beibl ac wrth i bobl esbonio'r Beibl i ni.

Edrychwch ar Ioan 3:16 - os ydym am dderbyn bywyd tragwyddol gan Dduw mae'n rhaid i ni gredu yn Iesu. Dyna pam y dylwn ymddiried ynddo.

'Beth mae'r disgyblion yn galw Iesu yn adnod 38?'
Roedd y disgyblion yn cydnabod bod Iesu yn 'Athro'. Ond mae Iesu yn fwy nag 'Athro' - ef yw Mab Duw a bu farw drosom ar y groes am iddo ein caru ni. *Tynnu llun croes ar eich papur.* Mae Iesu yn gallu maddau ein pechodau a rhoi bywyd newydd i ni. Dyna pam y dylwn ymddiried ynddo.

Amser gweddi
Edrychwch ar Effesiaid 2:8. Ffydd yw rhodd Duw i bwy bynnag sy'n gofyn amdano. Yr Ysbryd Glân sy'n dod â'r rhodd i ni. Rhowch gyfle i'r bobl ifanc ystyried yr adnod a gweddïwch drostynt, ar i'r Ysbryd Glân fod ar waith yn eu calonnau yn rhoi ffydd i gredu ac i dderbyn Iesu.

Gweithgaredd ychwanegol

Gêm Amddiffyn
Bydd angen swp o beli papur a chaead sosban arnoch.

Rhannwch y grŵp yn barau. Mae un person yn ceisio amddiffyn y llall rhag y peli papur sy'n cael eu taflu gan bawb arall, gan ddefnyddio'r caead fel tarian. Gosodwch ffin o amgylch y pâr a chwaraewch am amser penodol. Cyfrwch faint o beli sy'n taro'r person heb y darian. Gadewch i bawb gael tro a rhowch wobr i'r pâr sydd wedi derbyn y lleiaf o ergydion.

Wythnos 2:
"Pwy ynteu yw hwn?"

Dros y ddwy wers nesaf byddwn yn ceisio ateb cwestiwn y disgyblion sydd yn Marc 4:41, "Pwy ynteu yw hwn?" Roedden nhw'n fwy ofnus ar ôl y storm nac yr oedden nhw yn ystod y storm! Ond pam? Roedd eu hofn yn codi o'u ddiffyg dealltwriaeth o bwy oedd Iesu. Er eu bod wedi treulio cryn amser yn ei gwmni, yn gwrando arno yn esbonio sut gallent ddod i berthynas â Duw, ac yn dystion i lu o wyrthiau a oedd yn brawf o Dduwdod eu ffrind, doedd y gwirioneddau ddim wedi cyrraedd eu calonnau. Roedden nhw'n parhau yn y tywyllwch, heb 'ffydd'.

Cyflwyno'r thema

Cwis Pobl enwog
Rhannwch y grŵp yn dîmoedd/parau gyda phapur a beiro yr un, a gofynnwch y cwestiynau canlynol iddynt. Efallai hoffech chi ysgrifennu'r atebion allan iddynt gael eu gweld a dewis ohonynt.

Pam fod y bobl canlynol yn enwog?

Shirley Bassey –
cantores

Oed 11 - 14
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Rhys Ifans –
actor

Ryan Jones -
capten tîm rygbi Cymru 2008

Paul Potts –
ennillydd "Britain's got talent" 2007

Angharad Mair –
cyflwynydd teledu

Catherine Zeta Jones –
actores

Shane Williams -
mae'n dal y record am sgorio'r nifer fwyaf o geisiau dros Gymru (43)

Rhodri Morgan -
gwleidydd

Derek Brockway –
dyn tywydd

Twm Sion Cati –
'Robin Hood' Cymru

Sialens
Copïwch y sialensau canlynol ar ddarnau unigol o bapur a'u rhoi mewn bag. Gofynnwch am wirfoddolwr dewr i ddewis sialens a cheisio ei chyflawni. Fel y gwelwch, mae rhai o'r sialensau'n amhosibl!!

Sefyll ar un coes a chanu llinell gyntaf o "Mae hen wlad fy nhadau." / Cyffwrdd â'r penelin chwith gyda'r llaw chwith / Cusanu pedwar coes noeth / Edrych ar eich eiliau heb ddrych / Mynd tu allan a newid y tywydd.

Pwysleisiwch ei bod hi'n amlwg nad ydynt yn gallu gwneud popeth! Mae gennym ffiniau. Ond, a ydy'r bobl ifanc yn gallu enwi rhywun a newidiodd y tywydd? Dyna a wnaeth Iesu yn ein stori'r wythnos ddiwethaf. Heddiw, byddwn yn ystyried sut oedd Iesu yn medru cyflawni gwyrthiau o'r fath.

Darllen a deall y Beibl
Bydd angen Beiblau arnoch, a dau ddarn o bapur, un gyda'r geiriau "Yn ddyn" a'r llall gyda'r geiriau "Yn Dduw"arnynt, a darnau bach o bapur yn barod i ysgrifennu atebion y grŵp i'r cwestiwn canlynol:

'Beth a wyddwn ni am Iesu?' Ysgrifennwch bob ateb ar ddarn o bapur unigol. Byddwch yn barod i bromptio'r grŵp gyda chwestiynau sy'n dystiolaeth o'i ddyndod (e.e. ble cafodd Iesu ei eni? Pwy oedd ei rieni? Sut bu Iesu farw? Pwy gladdodd Iesu? Oedd ganddo ffrindiau? A fu Iesu'n drist erioed? Neu'n flin?) a'i Dduwdod (e.e. sawl gwyrth y gallant eu henwi? Beth ddigwyddodd ar y trydydd dydd ar ôl i Iesu farw? Beth ddigwyddodd i Iesu wedyn? A wnaeth Iesu bechu erioed? Beth ddywedodd Iesu amdano'i hun? – '*myfi yw'r ffordd at Dduw, myfi yw goleuni'r byd, rwy'n mynd yn ol i'r nef at fy nhad…')*

Wedyn, ceisiwch osod eich papurau mewn dau bentwr, y wybodaeth sydd gennych sy'n brawf 'fod Iesu'n ddyn' mewn un set, wrth ymyl y teitl "Yn ddyn," a'r wybodaeth sydd gennych 'fod Iesu'n Dduw' mewn set arall, wrth ymyl y teitl "Yn Dduw."

Darllenwch: Marc 4:35-41

Beth sy'n dangos i ni yn y stori fod Iesu'n ddyn? *Adnod 38 – roedd Iesu'n cysgu.*
Beth sy'n dangos i ni fod Iesu'n Dduw? *Adnod 39 - mae'n rheoli'r tywydd.*
Mae'n anodd i ni ddeall ond mae'n bwysig i ni gredu bod Iesu yn Dduw ac yn ddyn.

Bod yn ddirprwy
Adroddwch hanes wrth y plant am ryw achlysur pan oeddech yn 'ddirprwy' - yn 'eilydd' neu "*sub*" Neu, gofynnwch i'r plant os ydyn nhw wedi

gorfod bod yn ddirprwy erioed. Trafodwch wedyn beth sy'n digwydd mewn gêm bêl-droed/rygbi, os bydd un o'r chwaraewyr yn cael anaf ac yn gorfod gadael y cae. Pwysleisiwch nad yw'r rheolwr yn dewis rhywun o'r dyrfa/cefnogwyr i fod yn 'eilydd'. Mae'n rhaid i'r 'eilydd' fod yn berson sy'n abl i gymryd lle'r llall, gyda'r cymhwysterau angenrheidiol.

Esboniwch bod y Beibl yn dweud fod Iesu wedi dod i'r byd o'r nef i fod yn 'eilydd'. Ysgrifennwch y gair 'eilydd' ar ddarn o bapur a'i osod rhwng y ddau bentwr. Ond pam ddaeth mab Duw i'r byd? Gofynnwch i'r grŵp beth sy'n digwydd os oes rhywun yn torri'r gyfraith ac yn cael ei ddal? Maen nhw'n gorfod mynd i'r llys ac yn derbyn cosb. Ydyn nhw'n credu ei bod hi'n iawn i gosbi troseddwyr?

Mae'r Beibl yn dweud bod pawb wedi torri rheolau Duw ac yn wynebu cosb gan Dduw, a'i bod hi'n amhosibl i ni gael perthynas â Duw gyda phechod yn ein calonnau. Gan fod Duw yn caru Ei fobl a'i fyd, roedd e'n gorfod gwneud rhywbeth am y sefyllfa.

Daeth Iesu, mab Duw, o'r nef i fod yn 'eilydd' - i gymryd cosb Duw yn ein lle ninnau ac i ddelio â phechod. *Edrychwch am y darn o bapur sydd â'r geiriau "wedi marw ar y groes" arno, a'i roi ar frig y pentwr 'yn ddyn'.*

Roedd rhaid cael person heb bechod i fod yn 'eilydd' - dydy rhywun euog ddim yn gallu cymryd cosb rhywun arall, maen nhw'n cael ei cosbi am yr hyn a wnaethant o'i le. Oes rhywun wedi byw yn y byd heb bechu erioed? Nacoes, mae pob person cyffredin wedi pechu. Dim ond Iesu Grist, oherwydd ei fod yn Dduw oedd yn gallu byw bywyd perffaith, yn cadw pob un o reolau Duw. Dim ond Iesu felly, oedd yn gallu bod yn 'eilydd' i ni. *Edrychwch am y darn sydd â'r geiriau "wedi atgyfodi" a'i osod ar frig y pentwr 'yn Dduw'.* Mae'r ffaith fod Iesu wedi atgyfodi yn brawf bod Duw wedi derbyn marwolaeth Iesu yn ein lle.

Hanes gwir:
Roedd dyn ifanc yn ymddangos ger bron llys am dorri'r gyfraith. Penderfynodd y barnwr gyflwyno dirwy o £5,000 iddo fel cosb. Dywedodd y dyn ifanc nad oedd yn gallu talu'r ddirwy. Cododd y barnwr o'i sêt, mynd i lawr at y dyn ifanc ac ysgrifennu siec am £5,000 a'i rhoi iddo, gan ddweud "Dyma ti fy mab, wna i gymryd dy gosb di, mi wna i dalu ar dy ran. Wela'i di heno adref."

Roedd y barnwr yn gorfod cosbi'r dyn ifanc am dorri'r gyfraith, ond gan ei fod yn ei garu hefyd fel mab iddo, roedd yn fodlon talu ar ei ran. Mae Iesu, mab Duw yn cael ei gosbi yn ein lle yn yr un modd am ei fod yn ein caru gymaint.

Amser gweddïo

Diolch am Iesu
Edrychwch eto ar y papurau sy'n disgrifio Iesu a'u rhannu rhwng y bobl ifanc. Gofynnwch iddynt eu cynnwys mewn brawddeg o weddi, e.e. "Diolch, Iesu, am iachâu'r holl bobl am dy fod yn eu caru," neu "Diolch, Iesu, am farw yn fy lle."

Gweithgaredd ychwanegol

'**Enw'r dôn yw….?'**
Bydd angen gwydrau o ddŵr a lliain sychu/tyweli papur arnoch.

Nod y gêm yw i wirfoddolwyr 'garglo' tôn adnabyddus i bawb arall geisio ei dyfalu. Rhowch wobr fechan i'r 'garglwr' gorau!!

Wythnos 3

Yn y wers heddiw byddwn:
- ❖ yn ystyried tystiolaeth y Testament Newydd i ddynoliaeth Iesu
- ❖ ceisio deall pam fod dynoliaeth Iesu yn hanfodol i gred y Cristion
- ❖ yn gweld sut mae Iesu yn medru helpu ei bobli wynebu trafferthion

Oed 11 - 14
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Cyflwyno'r thema

'Cwis Bobl Ryfeddol'
Bydd angen copi o 'Atodiad 8' i bawb (neu i bob pâr)

Gofynnwch i'r grŵp os ydyn nhw'n gwybod unrhyw ffeithiau diddorol/rhyfeddol am bobl - y corff dynol neu gyflawniadau dynol. Rhowch gopi o'r 'Atodiad' iddyn nhw a gofynnwch iddyn nhw ddewis yr atebion cywir. Rhowch wobr i'r person/pâr sydd â'r nifer fwyaf o atebion cywir. Pwysleisiwch, er bod pobl yn medru gwneud pethau rhyfeddol, mae 'na rai pethau sy'n amhosibl iddynt - fel rheoli'r tywydd. Ond dyna a wnaeth Iesu yn yr hanes hwn (gofynnwch i'r grup beth maen nhw'n ei gofio o'r hanes). Does dim rhyfedd bod y disgyblion yn gofyn i'w gilydd, "Pwy yw hwn?" Dyna'r cwestiwn y byddwn yn ceisio ei ateb heddiw.
(Atebion: 1=b; 2=c; 3=a; 4=c; 5=b; 6=a; 7=b; 8=b; 9=a; 10=c)

'Superheroes'
Dangoswch glip o unrhyw ffilm sy'n dangos '*Superhero*' yn newid o fod yn berson cyffredin i fod yn '*Superhero*', gyda phwerau gor-uwch-naturiol, e.e. *The Incredibles*.

Trafodwch bwerau y '*Superheroes*' eraill y mae'r grŵp yn gyfarwydd â nhw. Pwy fydde nhw'n dewis i'w helpu yn y sefyllfaoedd canlynol?

1. Rydych yn disgyn o adeilad uchel. *(Spiderman?)*

2. Mae carreg drom yn rholio i lawr y mynydd ac yn cau'r ffordd o'ch blaen.
(Incredible Hulk?)

3. Mae lladron wedi torri i mewn i'ch tŷ ac yn rhedeg i ffwrdd gyda'ch 'trysorau'.
(Batman?)

4. Rydych wedi anghofio mynd â'ch gwaith cartref i'r ysgol – trueni nad ydych chi'n gallu troi'r cloc yn ôl, a chael cyfle i gofio amdano! *(Superman?)*

Mae'r '*Superheroes*' i gyd yn edrych yn bobl gyffredin iawn - ond mae ganddyn nhw bwerau gor-uwch-naturiol sy'n dod i'r amlwg mewn argyfwng! Tebyg iawn i Iesu Grist mewn ffordd! Ydy'r grŵp yn cofio'r hanes am Iesu'n tawelu'r storm? Does dim rhyfedd bod y disgyblion yn holi "Pwy yw hwn?" Dyna'r cwestiwn y byddwn yn ceisio ei ateb heddiw.

Darllen a deall y Beibl
Darllen: Ioan 11:1-3; 17-27; 32-36; 41-44. *Gweler 'Atodiad 9'.*

Yn yr hanes hwn, unwaith eto, gwelwn Iesu yn ddyn ac yn Dduw.

Tanlinellwch y geiriau sy'n dangos:
- ❖ Perthynas Iesu gyda'r teulu
- ❖ Geiriau sy'n dangos emosiynau Iesu
- ❖ Geiriau/cymalau sy'n dangos beth a gredai Mair am Iesu
- ❖ Sylwch fod Iesu yn derbyn datganiad Mair ei fod e'n Fab Duw, y Crist, yr un sydd wedi dod i'r byd. *Ydi'r bobl ifanc yn cofio beth ydi ystyr yr enw "Crist"? - yr un mae Duw wedi dewis ar gyfer gwaith arbennig.*

Edrychwch eto ar ba emosiynau a ddangosodd Iesu - adnod 3,5,36 - yn caru; adnod 35 - yn crio. Mae Iesu wedi profi'r un emosiynau yr ydyn ni'n eu profi, ac mae'n deall beth yw bod yn ddynol. Felly, mae'n gallu cydymdeimlo â ni pam fyddwn ni'n poeni neu'n drist.

Ond, gan ei fod hefyd yn Dduw'r Mab, mae gan Iesu y pŵer i ddelio ag unrhyw sefyllfa. Yn y stori heddiw, cyflawnodd Iesu wyrth arall a chodi Lasarus o farw'n fyw. Heddiw, os byddwn yn gofyn i Iesu am ei gymorth, fel gwnaeth Mair, bydd Iesu'n ateb - ond nid bob tro yn y ffordd

wyrthiol yr hoffem ei weld. *Byddwn yn trafod y pwynt hwn yn ystod amser gweddi.*

Amser gweddi
Bydd angen darn mawr o bapur glas arnoch, gyda'r geiriau "Ble mae eich ffydd?" wedi'u hysgrifennu arno, pensiliau lliw/pinnau ffelt, siâp cwch i bawb a glud.

Yn aml, mae pobl yn disgrifio'r problemau maen nhw'n eu hwynebu mewn bywyd fel 'stormydd'. Pa 'stormydd' all y bobl ifanc eu henwi? Ydyn nhw'n wynebu unrhyw 'storm' yn eu bywydau ar hyn o bryd? (Rhowch enghreifftiau os yw'r bobl ifanc yn araf yn ymateb, e.e. anawsterau gyda rhieni/ffrindiau/gwaith ysgol, teimlo'n unig/trist/isel). Os ydyn ni wedi rhoi ein bywyd i Iesu, mae'n addo bod gyda ni trwy bob 'storm'. Rhowch siâp cwch i bawb a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu gweddi arno yn gofyn i Iesu am ei gymorth. Efallai eu bod angen gweddïo am gymorth yr Ysbryd Glân i ddeall beth mae'n ei olygu i roi eu 'ffydd' yn Iesu am y tro cyntaf. Neu, gallant ysgrifennu gweddi dros broblem mae rhywun arall yn ei wynebu neu am sefyllfa yn y byd. Neu, gallant weddïo am gymorth Iesu i wynebu 'storm' bersonol.

Darluniwch gefndir stormus ar y papur a gludwch y cychod arno (gyda'r gweddïau o'r golwg).
Wrth i chi weithio trafodwch pa atebion rydyn ni'n derbyn gan Dduw i'n gweddïau – maen nhw'n debyg iawn i'r atebion gawn ni bob dydd i'n ceisiadau i bobl eraill - Iawn, Na neu Mae'n rhaid aros am ateb.

Ysgrifennwch yr adnod, "Yr wyf fi gyda chwi yn wastad…" Mathew 28:20, yn deitl i'ch murlun. Esboniwch wrth y grŵp am y sicrwydd sydd gennym os ydyn ni wedi gwahodd Iesu i'n bywyd; mae e gyda ni bob amser. Mewn sefyllfaoedd anodd mae'n rhaid inni ymddiried bod Iesu ar waith er ein lles.

Gweithgarwch ychwanegol

Gêm – 'Mae fy llong yn hwylio'
Gêm gof yw hon. Mae'r person cyntaf yn adrodd y cymal, "Mae fy llong yn hwylio.." ac yn ychwanegu pa gargo sydd arno, e.e. bananas o Jamaica. Mae'r ail berson yn ailadrodd y frawddeg flaenorol ac yn ychwanegu cargo arall, e.e. 'Mae fy llong yn hwylio gyda bananas o Jamaica a defaid o Awstralia'. Os na fydd y person yn cofio'r rhestr i gyd maen nhw allan o'r gêm. Parhewch nes bod un neu ddau berson ar ôl. Byddai'n hwyl cael gwn dŵr bach i chwistrellu dros y rhai sy'n methu!!

Atodiad 1
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41





Atodiad 2
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41



Atodiad 3
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41





Atodiad 4
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41











Atodiad 5
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41



"Pwy yw hwn? Y mae hyd yn oed y gwynt a'r mor yn ufuddhau iddo."

Marc 4:31

Pobl Ffydd

J W N G N F R X V R V I K A B C Y P Q F
C S M C M Z Y F V Y I D W Q B K I R Q N
O X B E F F M R K Z O A Q F Q R U K Z Y
H J N O E D I G R D E P M W H T A N B S
A V Q P V E Y C G M O X E Y H O C H K D
S O H P B Q C N M W C W S U G G N T A T
Z Y S P L T E P M Y X A M E S A C H W M
A B E D N E G O O Z D X P M M D I J T Y
F A B G V R S Q V R P A R U I H H L H B
M S H L H C C P A K L O I M J V M E B S
L O T C J R O C X R P N H K E N Y I Q H
B E S P B C H Q F B A S D W U F B N A S
H H U E D Y B F H A C A Y R I X S A E R
L P G M S Q E J A T F C U F S G Z D S F
D T O E A S Q B N H G H X E J C N Z M O
A H L J O S T R N U V E U J F D J N S I
D M H J I D T Y A H T U S T D Z Z D K Y
V S L P V D N W U A O S V D R W F D M J
G S W T O N N E P V P A Z H Q Z J N C L
L Y W B F G K L L P K L N L W I K N Z K

Abraham
Abednego
Pedr
Joseff
Sadrach
Moses
Noa
Hanna
Sacheus
Samuel
Daniel
Gideon
Ruth
Mair

Pobl rhyfeddol !

1. Beth ydy'r enw ar y rhan lliw o'r llygad?
a) y gannwyll b) yr iris c) y retina

2. Pa mor hir yw system dreulio oedolyn?
a) tua 2 fetr b) tua 5 metr c) tua 10 metr

3. Y serebrwm ydy rhan mwyaf yr ymenydd. Sawl rhan sydd iddo?
a) 2 b) 3 c) 4



4.Mae aer yn cyrraedd yr ysgyfaint drwy'r ……
a) diaffram b) cyhyrau c) pibell aer

5. Faint o ddannedd sydd gan blant bach?
a) 6 b) 20 c) 32

6. Sawl gwaith mewn munud mae'r galon yn curo?
a) 70 b) 50 c) 24

7. Faint o esgyrn sydd mewn sgerbwd?
a) 106 b) 206 c) 306

8. Beth yw gwaith y celloedd coch yn y gwaed?
a) ymosod ar germau b) cludo ocsigen c) cynorthwy i wella briwiau

9. Sawl cyhyr sydd yn y corff?
a) tua 600 b) tua 60 c) tua 6000

10. Beth sy'n digwydd pan drewir tonfeydd sain tympan y glust?
a) yr ydych yn colli balans
b) colli clyw
c) danfonir neges i'r ymenydd drwy ddirgrynu.

Ioan 11

Roedd dyn o'r enw Lasarus yn sâl. Roedd yn dod o Bethania, pentref Mair a'i chwaer Martha. [2] (Mair oedd wedi tywallt persawr ar yr Arglwydd Iesu a sychu ei draed gyda'i gwallt, a'i brawd hi oedd Lasarus, oedd yn sâl yn ei wely.) [3] Dyma'r chwiorydd yn anfon neges at Iesu, "Arglwydd, mae dy ffrind di'n sâl."

Iesu'n cysuro'r chwiorydd

[17] Pan gyrhaeddodd Iesu, deallodd fod Lasarus wedi cael ei gladdu ers pedwar diwrnod. [18] Roedd Bethania llai na dwy filltir o Jerwsalem, [19] ac roedd llawer o bobl o Jwdea wedi dod at Mair a Martha i gydymdeimlo â nhw ar golli eu brawd. [20] Pan glywodd Martha fod Iesu'n dod, aeth allan i'w gyfarfod, ond arhosodd Mair yn y tŷ.[21] "Arglwydd," meddai Martha wrth Iesu, "taset ti wedi bod yma, fyddai fy mrawd ddim wedi marw. [22] Ond er hynny, dw i'n dal i gredu fod Duw yn rhoi i ti beth bynnag wyt ti'n ei ofyn ganddo." [23] Dwedodd Iesu wrthi, "Bydd dy frawd yn dod yn ôl yn fyw." [24] Atebodd Martha, "Dw i'n gwybod y bydd yn dod yn ôl yn fyw adeg yr atgyfodiad ar y dydd olaf." [25] Dwedodd Iesu wrthi, "Fi ydy'r atgyfodiad a'r bywyd. Bydd pawb sy'n credu ynof fi yn dod yn fyw, er iddyn nhw farw; [26] a bydd y rhai sy'n fyw ac yn credu ynof fi ddim yn marw go iawn. Wyt ti'n credu hyn?" [27] "Ydw, Arglwydd," meddai Martha wrtho, "dw i'n credu mai ti ydy'r Meseia, Mab Duw, yr un oedd i ddod i'r byd."

[32] Ond pan gyrhaeddodd Mair Iesu a'i weld, syrthiodd wrth ei draed a dweud, "Arglwydd, taset ti wedi bod yma, fyddai fy mrawd ddim wedi marw." [33] Wrth ei gweld hi'n wylofain yn uchel, a'r bobl o Jwdea oedd yno yn wylofain gyda hi, cynhyrfodd Iesu drwyddo ac roedd yn ddig. [34] "Ble ydych chi wedi ei gladdu?" gofynnodd. "Tyrd i weld, Arglwydd," medden nhw. [35] Roedd Iesu yn ei ddagrau. [36] "Edrychwch gymaint oedd yn ei garu e!" meddai'r bobl oedd yno.

[41] Felly dyma nhw'n symud y garreg. Yna edrychodd Iesu i fyny, a dweud, "Dad, diolch i ti am wrando arna i. [42] Dw i fy hun yn gwybod dy fod ti'n gwrando arna i bob amser, ond dw i'n dweud hyn er mwyn y bobl sy'n sefyll yma, iddyn nhw gredu mai ti sydd wedi fy anfon i." [43] Ar ôl dweud hyn, dyma Iesu'n gweiddi'n uchel, "Lasarus, tyrd allan!" [44] A dyma'r dyn oedd wedi marw'n dod allan. Roedd ei freichiau a'i goesau wedi eu rhwymo gyda stribedi o liain, ac roedd cadach am ei wyneb. "Tynnwch nhw i ffwrdd" meddai Iesu, "a'i ollwng yn rhydd."

Atodiad 10
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Gyda Iesu Yn Y Cwch

Trefniant- Ceri Llwyd



Gwasanaeth Teuluol
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Iesu'n Dangos ei Allu:
Luc 8:22-25

Bydd cyfle i'r plant gymryd rhan yn y gwasanaeth gan ddefnyddio pethau y maen nhw wedi eu gwneud yn ystod y gwersi.
Ceir rhestr o ganeuon y gallwch eu defnyddio ar ddiwedd y gwasanaeth hwn.
Beth am gael rhai o'r plant/bobl ifanc i gynorthwyo i gyfeilio yn ystod y gwasanaeth?

Defosiwn: Gair o groeso, gweddi, emyn/cân.

Cyflwyno'r thema:
Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw erioed wedi cerdded mewn storm o law mawr a gwynt cryf? Rhowch gyfle iddynt ateb. Gofynnwch sut oedden nhw'n teimlo? Efallai bod rhywun wedi bod mewn storm ar y môr? Gofynnwch iddyn nhw adrodd eu hanesion.

Y mae hanes heddiw am griw o ddynion mewn storm fawr ar y môr.

Eitemau gan y plant iau:
Cân/rhigwm/dangos gwaith crefft

Darlleniad: Luc 8:22-25
Bydd angen darn mawr o bapur arnoch. Wrth ddarllen neu ddweud yr hanes gadewch i rywun arall dynnu'r lluniau syml sydd ar 'Atodiad 2'.
22 Un diwrnod dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, "Beth am i ni groesi i ochr draw'r llyn?" Felly, i ffwrdd â nhw mewn cwch. **(llun 1)** 23 Wrth iddyn nhw hwylio ar draws y llyn syrthiodd Iesu i gysgu. **(llun 2)** Daeth storm ofnadwy ar y llyn ac roedd y cwch yn llenwi â dŵr **(llun 3)** nes eu bod nhw mewn peryg o suddo. 24 Dyma'r disgyblion yn mynd at Iesu a'i ddeffro, ac yn dweud wrtho, "Feistr! dyn ni'n suddo feistr!" **(llun 4)** Cododd Iesu a cheryddu'r gwynt a'r tonnau gwyllt. Dyma'r storm yn stopio, ac roedd pobman yn hollol dawel. 25 "Ble mae'ch ffydd chi?" gofynnodd i'w ddisgyblion. **(llun 5)** Roedden nhw wedi dychryn ac yn rhyfeddu at beth ddigwyddodd. "Pwy ydy hwn?" medden nhw, **(llun 6)** "Mae hyd yn oed yn rhoi gorchymyn i'r gwynt a'r dŵr, ac maen nhw'n ufuddhau iddo."

Ysgrifennwch y canlynol ar ddarn mawr o bapur, neu ar gyfer taflunydd neu ar PowerPoint yn barod i ddangos i bawb.

"Beth am i ni groesi i ochr draw'r llyn?"
Sylw: Nid yw Iesu byth yn gadael ei ffrindiau. Mae Iesu'n mynd efo'i ffrindiau i ble bynnag yr ânt.
"Feistr! 'dyn ni'n suddo feistr!"

Gwasanaeth Teuluol
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Sylw: Mae'r disgyblion yn dychryn. Nid ydynt yn sylweddoli mai Mab Duw sydd gyda nhw yn y cwch

"Ble mae'ch ffydd chi?"

Sylw: 'Ffydd' yw ymddiried / trystio Iesu yng nghanol adegau braf neu ddu bywyd.

Un tro, roedd byngalo ar dân. Nid oedd plentyn yn gallu dianc oherwydd y mwg a'r tân. Roedd wedi mynd i ben to'r tŷ. Roedd yn gweiddi'n uchel am ei dad. Dyma'r tad yn dweud, "Neidia." Ond atebodd y plentyn gan ddweud nad oedd yn gweld ei dad. Atebodd y tad, "Ond, mi fedra i dy weld di." Yna neidiodd y plentyn i freichiau ei dad. Dyna yw 'ffydd'.

"Mae hyd yn oed yn rhoi gorchymyn i'r gwynt a'r dŵr, ac maen nhw'n ufuddhau iddo."

Sylw: Mae gan Iesu, Mab Duw, allu i newid y tywydd!

Sgets gan y plant hŷn:

Cyflwynwch y darlleniad dramatig a ddysgwyd yn yr Ysgol Sul.

Emyn / cân

Dysgu adnod:

'Gallwch chi fod yn siŵr y bydda i gyda chi bob amser, nes bydd diwedd y byd wedi dod'. Mathew 28:20.

Ysgrifennwch yr adnod ar ddarn mawr o bapur, neu ar gyfer taflunydd neu ar PowerPoint yn barod i ddangos i bawb.

Rhannwch y gynulleidfa yn ddau dîm. Gofynnwch i'r tîm cyntaf i adrodd yr adnod. Yna, dywedwch wrth yr ail dîm am ei hadrodd. Mynegwch pa dîm oedd yn adrodd orau. Gofynnwch iddyn nhw i'w hadrodd yr eilwaith, gan fynegi eto pa dîm oedd orau. Gadewch iddyn nhw adrodd unwaith yn rhagor cyn cuddio'r adnod. Dywedwch wrthyn nhw am ei hadrodd unwaith eto a datgelwch pa dîm oedd orau.

Dyma eiriau olaf Iesu i'w ddisgyblion cyn iddo adael am y nefoedd. Y mae'r geiriau hyn ar gyfer pawb sydd yn ffrind i Iesu heddiw hefyd.

Y mae Iesu yn addo bod gyda'i ffrindiau lle bynnag yr ânt:

- ❖ Ysgol
- ❖ Salwch
- ❖ Deintydd
- ❖ Ysbyty
- ❖ Colli ffrindiau
- ❖ Bwlio
- ❖ Mam a dad yn gwahanu
- ❖ Rhywun agos yn marw

Cyflwyniad: Hanes 'Corrie Ten Boom' a wnaeth ymddiried yn Iesu yng nghanol storm.

Gwasanaeth Teuluol
Iesu'n dangos ei allu! Marc 4: 35-41

Gweler y CDd am luniau i gyd-fynd â hanes 'Corrie Ten Boom'.

Roedd Corrie yn gwybod byddai Iesu gyda hi hyd y diwedd. Darllenwch neu adroddwch yr hanes yn eich geiriau eich hun. Dynes fach ddi-nod o'r Iseldiroedd oedd Corrie Ten Boom hyd nes i'r Ail Ryfel Byd newid ei bywyd yn llwyr. Ar 28 Rhagfyr 1944, cerddodd yn rhydd o Wersyll Crynhoi Ravensbruck. Roedd wedi gweld erchyllterau mawr tra ei bod yno, byw ymhlith y llygod mawr a llwgu bron at farw tra'n gweithio oriau hir dan amodau caled. Dim ond tri diwrnod cyn dydd Nadolig, 1944, bu Betsy, chwaer Corrie, farw yno. Wynebai Corrie ei gelynion yn ddewr, fel Cristion roedd yn eu caru ac yn gweddïo drostynt.

Roedd tad Corrie, sef Willem hefyd yn Gristion da a dewr ac yn ddyn busnes yn Harlem. Byddai'n helpu Iddewon wrth iddynt geisio dianc rhag y Natsïaid. Agorodd ei gartref iddynt fel cuddfan 'The Hiding Place.' Yno byddai Iddewon yn cuddio rhag y milwyr Almaenig. Gwyddai bod ei deulu mewn perygl mawr wrth wneud hyn ond mynnai ddilyn gorchymyn Duw. Pan archwiliwyd y tŷ gan y Gestapo, roedd cosb y teulu Ten Boom yn un drom. Cymeriad cryf a chadarn, tebyg i'w thad, oedd Corrie. Dysgodd garu ei gelynion, hyd yn oed pan glywodd bod ei thad wedi marw mewn cell yn y carchar. Gwyddai bod yn rhaid maddau i Hitler a'i filwyr blin. Bob nos, byddai hithau a chriw o ferched tebyg iddi, yn swatio gyda'i gilydd i ddarllen y Beibl a gweddïo am nerth i wynebu her y diwrnod canlynol. Er gwaethaf ei hiraeth am ei theulu a'i dioddefaint, gwyddai Corrie bod Duw yn ffyddlon iddi.

Un o brofiadau anodda' bywyd i Corrie oedd ail-ymweld â Ravensbruck yn 1947, dim ond dwy flynedd ar ôl iddi gael ei rhyddhau. Roedd wedi dod i rannu'r newyddion da am Iesu Grist â'r Almaenwyr. Roedd eisiau iddyn nhw wybod bod Duw yn eu caru nhw ac yn maddau iddynt. Roedd hithau'n medru maddau am fod Duw wedi maddau iddi hi. Tra ei bod yno, cafodd gyfle i ysgwyd llaw ag un o filwyr creulonaf Ravensbruck. Maddeuodd iddo yntau hefyd am ei bod yn credu yn ei chalon i Iesu Grist farw ar y groes er mwyn maddau ei phethau drwg hithau yn ogystal. Bu Corrie farw yn 1983, ar ddiwrnod ei phen-blwydd yn 91 oed. Roedd y ddynes fach arbennig hon wedi teithio'r byd yn adrodd ei hanes a dangos i eraill sut yr oedd hi'n bosib i bawb fod yn fwy na choncwerwyr am ei bod yn caru ac yn ffrind i Iesu Grist.

Gweddi: Arglwydd Iesu, y mae'r Beibl yn dweud nad oes angen i ni boeni am ddim, ond mae'n haws dweud na gwneud. Fedrwn ni ddim peidio â phoeni. Iesu, mae popeth yn bosibl i Ti. Un tro, fe wnest ti newid y tywydd ar Lyn Galilea!

Dysga ni i ymddiried ynot ti a helpa ni i gofio na fydd rhaid i ni wynebu dim ar ein pen ein hunain. Yr wyt ti'n ein hymyl bob cam o'r ffordd. Diolch yn fawr iawn i Ti. Amen

Emyn / cân i ddiweddu'r oedfa

Awgrymiadau ar gyfer emynau:
Caneuon ffydd: 600, 797, 798, 868
Tyrd i Ddathlu: 2, 8, 18, 24, 25